# Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint

**Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn cynnig ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr sy'n helpu pobl ifanc i feithrin hyder, gwydnwch a sgiliau bywyd defnyddiol**

**Fe wnaethon ni (Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru) arolygu Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint ym mis Mehefin 2026.**

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint:

- Gweithwyr ieuenctid cefnogol sy'n gwrando ar bobl ifanc, yn eu hadnabod yn dda ac yn eu helpu i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys
- Ystod eang o gyfleoedd, yn cynnwys clybiau ieuenctid, dysgu yn yr awyr agored, gwobrau Dug Caeredin, gwirfoddoli, llais ieuenctid, prosiectau yn seiliedig ar faterion, profiadau preswyl a chymorth targedig
- Help i fagu hyder, gwydnwch, lles, annibyniaeth, medrau arwain a medrau bywyd ymarferol
- Cyfleoedd i gael dweud eu dweud, dylanwadu ar benderfyniadau a chymryd rhan mewn Cyngor Ieuenctid, ymgynghori a gweithredu cymunedol
- Cymorth cynhwysol ar gyfer pobl ifanc â gwahanol anghenion a chefndiroedd, yn cynnwys pobl ifanc LHDTC+, pobl ifanc ag ADY, pobl ifanc niwroamrywiol, rhieni ifanc a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH
- Prosiectau sy'n helpu pobl ifanc i archwilio materion pwysig fel perthnasoedd iach, cydsynio, hunaniaeth, misogynedd, iechyd meddwl, dinasyddiaeth a chadw'n ddiogel

## Beth na fyddwch efallai'n ei gael yng Ngwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint:

- Yr un ansawdd o waith ieuenctid mynediad agored ym mhob lleoliad, gan fod arfer yn gryfach mewn rhai clybiau ieuenctid nag eraill
- Gwybodaeth glir am yr holl gyfleoedd sydd ar gael, gan nad yw ymwybyddiaeth o'r cynnig gwasanaeth ieuenctid llawn yn gyson eto ymhlith pobl ifanc a phartneriaid

Sganiwch!

Estyn